Atodiad C

Cynllun Gweithredu diweddaredig ar gyfer Cyngor Sir Fynwy
Dyddiad yr archwiliad: 20 – 22 Chwefror a 4 – 5 Mawrth 2013
Dyddiad yr ymweliad dilynol cyntaf: 20 Awst 2015

Dyddiad yr ymweliad archwilio: 15 – 17 Gorffennaf 2025

Allwedd statws

| | |
|---|---|
| Glas | Cwblhawyd |
| Gwyrdd | Cynnydd da |
| Oren | Cynnydd cyfyngedig |
| Coch | Dim cynnydd |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 3.16(i) Sicrhau bod Cynlluniau'r Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd yn y dyfodol yn cydymffurfio'n llawn â'r Canllaw Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith. Yn arbennig, dylid cynnwys dadansoddiad o'r adnoddau sydd eu hangen o gymharu â'r rhai hynny sydd ar gael. [Y Safon – 3.1] | Glas | Sicrhau bod y cynllun gwasanaeth yn cynnwys dadansoddiad o'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni pob rhan o'r gwasanaeth.<br><br>Dyddiad diwygiedig ar gyfer cwblhau: 30/04/16 | Mae'r wybodaeth hon bellach wedi'i chynnwys yn y cynllun gwasanaeth diweddaraf. | Cwblhawyd |
| 4.7(i) Adolygu'r holl weithdrefnau gwaith cofnodedig yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'n gywir sut y caiff y gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd ei ddarparu yn ymarferol, gan gynnwys yr ystyriaethau prif awdurdod. [Y Safon – 4.1] | Glas | Cwblhawyd | | |
| 5.16(i) Adolygu'r Cynllun Dirprwyo i gynnwys y pŵer i ddal gafael ar fwydydd a fewnforiwyd. [Y Safon – 5.1] | Glas | Cwblhawyd | | |
| 5.16(ii) Adolygu a diweddaru awdurdodiadau swyddogion fel y bo'r angen er mwyn sicrhau bod yr holl swyddogion wedi'u hawdurdodi'n briodol o dan y ddeddfwriaeth gyfredol yn unol â'u cymwysterau, eu hyfforddiant a'u cymwyseddau. [Y Safon – 5.1 a 5.3] | Glas | Cwblhawyd | | |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 5.16(iii) Cynnal cofnodion o gymwysterau academaidd neu gymwysterau eraill perthnasol, hyfforddiant a phrofiad pob swyddog awdurdodedig a staff cymorth priodol yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 5.5] | Glas | Cwblhawyd | | |
| Hylendid bwyd<br>7.23(i) Sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau safleoedd bwyd yn cael eu cynnal ar yr amlder gofynnol a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.<br>[Y Safon – 7.1] | Glas | Cwblhawyd | | |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 7.23(ii) Cynnal ymyriadau / arolygiadau, a chymeradwyo sefydliadau yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.2] | Glas | Sicrhau gwelliannau pellach i ymyriadau. Dylai'r rhain gynnwys gwelliannau mewn asesiadau o gydymffurfiaeth a phenderfyniadau i ailymweld; yn ogystal ag asesu gwybodaeth strategaethau gorfodi amgen (AES) ar gyfer camau gweithredu pellach posib. At hynny, mae angen gwelliannau i'r ffordd y caiff trefniadau galw'n ôl eu cofnodi ar ffeiliau cymeradwyo hefyd. | Roedd pob ffeil ar gyfer ymyriadau hylendid bwyd yn dangos tystiolaeth o asesiad trylwyr o gydymffurfiaeth, yn ogystal â phenderfyniad ynghylch ail-ymweliad wedi'i ddogfennu lle bo'n berthnasol.<br><br>Roedd ffeiliau cymeradwyo yn cynnwys trefniadau ar gyfer galw a thynnu cynhyrchion yn ôl.<br><br>Nid oedd ffeiliau AES ar gael gan fod safleoedd a oedd yn gymwys ar gyfer AES yn destun ymyriad ar y safle. | Cwblhawyd |
| 7.23(iii) Cymryd camau priodol yn sgil unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio a ganfyddir, yn unol<br>â Pholisi Gorfodi'r awdurdod. [Y Safon – 7.3] | Glas | Cwblhawyd | | |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| 7.23(iv) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer yr ystod o ymyriadau/arolygiadau y mae'n eu cynnal. [Y Safon – 7.4] | Glas | Cwblhawyd | | |
| 7.23(v) Storio cofnodion cyfoes o ymyriadau mewn ffordd sy'n golygu bod modd eu hadalw'n rhwydd. [Y Safon – 7.5] | Glas | Cwblhawyd | | |
| Safonau bwyd<br>7.36(i) Sicrhau bod ymyriadau ac arolygiadau safleoedd bwyd yn cael eu cynnal ar yr amlder a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | Glas | Cwblhawyd | | |
| 7.36(ii) Cynnal arolygiadau/ymyriadau mewn sefydliadau bwyd yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a Chanllawiau Ymarfer, gan gynnwys defnyddio ffurflenni arolygu priodol. [Y Safon – 7.2] | Glas | Sicrhau gwelliannau pellach i ymyriadau o ran penderfyniadau i ailymweld.<br><br>Dyddiad diwygiedig ar gyfer cwblhau: 22/02/16 | Ailymweliadau wedi'u cynnal yn ôl yr angen. | Cwblhawyd. |
| 7.36(iii) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer yr ystod o ymyriadau/arolygiadau y mae'n eu cynnal. [Y Safon – 7.4] | Glas | Cwblhawyd | | |
| 7.36(iv) Cofnodi arsylwadau a data a gafwyd o ymyriadau mewn modd amserol er mwyn atal eu colli a sicrhau bod cofnodion cyfoes | Oren | Sicrhau gwelliannau pellach i gofnodion ymyriadau. Dylai'r rhain gynnwys | Asesiadau olrheiniadwyedd yn cael eu cynnal yn gyson. | Sicrhau bod cofnodion ymyriadau'n cynnwys a oedd arolygiadau'n |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| yn ddarllenadwy a bod modd eu hadalw. [Y Safon – 7.5] | | gwelliannau mewn perthynas ag asesiadau o gydymffurfiaeth.<br><br>Dyddiad diwygiedig ar gyfer cwblhau: 22/02/16 | | rhai dirybudd, manylion am faint a graddfa'r gweithgareddau a chofnodion trylwyr o asesiadau gyda gofynion o ran cyfansoddiad, labelu a chyflwyno. |
| Cwynion am fwyd a sefydliadau bwyd<br>8.11(i) Adolygu a diweddaru'r polisi a'r weithdrefn gofnodedig i gynnwys canllawiau ar gyfer swyddogion ar amseroedd ymateb targed. [Y Safon – 8.1] | Glas | Cwblhawyd | | |
| 8.11(ii) Ymchwilio i gwynion a dderbynnir yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a'i bolisi a'i weithdrefnau ei hun. [Y Safon – 8.2] | Gwyrdd | Gwella'r cofnodion ynghylch ymchwiliadau i gwynion.<br><br>Dyddiad diwygiedig ar gyfer cwblhau: 22/02/16 | Mae ffeiliau cwynion yn cynnwys canlyniad clir yn gyson. | Sicrhau bod y camau priodol a gymerwyd yn cael eu dogfennu ym mhob achos. |
| 12.12(i) Sicrhau bod ei raglen samplu gofnodedig yn cynnwys cyfeiriad at flaenoriaethau samplu cenedlaethol. [Y Safon – 12.4] | Glas | Cwblhawyd | | |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 12.2(ii) Cynnal cofnodion samplu cywir a chyfredol ar ffurf y gellir ei hadalw'n rhwydd. [Y Safon – 16.1] | Glas | Cwblhawyd | | |
| 12.2(iii) Sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd yn sgil canlyniadau samplu bwyd anfoddhaol. [Y Safon – 12.7] | Glas | Cwblhawyd | | |
| 13.6(i) Sicrhau bod y weithdrefn ar gyfer ymdrin ag achosion achlysurol o heintiau cysylltiedig â bwyd y tu allan i oriau swyddfa yn cael ei chofnodi'n briodol a bod y weithdrefn yn cynnwys arolygu safleoedd bwyd cysylltiedig. [Y Safon – 13.2] | Glas | Cwblhawyd | | |
| 15.11(i) Dylai'r awdurdod sicrhau bod ei bolisi gorfodi'n cael ei gynnal yn addas. [Y Safon – 15.1] | Glas | Cwblhawyd | | |
| 15.11(ii) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer ymweliadau dilynol a chamau gorfodi yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau swyddogol. [Y Safon – 15.2] | Oren | Darparu gweithdrefn erlyn ddiwygiedig. Dyddiad diwygiedig ar gyfer cwblhau: 22/02/16. | Gweithdrefn erlyn ddiwygiedig wedi'i darparu. | Adolygu ymhellach y weithdrefn erlyn er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys manylion ar lunio ffeiliau achos, gan gynnwys trefniadau lleol ar gyfer symud achosion yn eu blaen, ac yn |

| Camau i fynd i’r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni’n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | | | ystyried rolau a chyfrifoldebau’r Ddeddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol (CPIA). |
| 15.11(iii) Sicrhau bod gwaith gorfodi cyfraith bwyd yn cael ei wneud yn unol â’r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau cofnodedig a Pholisi Gorfodi’r awdurdod ei hun. [Y Safon – 15.2, 15.3 a 15.4] | Oren | Darparu manylion y llys ynadon lleol ynghyd â hysbysiadau gwella hylendid (HINs) a chadw prawf o’r gwasanaeth.<br>Ni chynhaliwyd sut y rhoddir gweithdrefnau cau’n wirfoddol ar waith na sut y cyhoeddir rhybuddion syml yn ystod yr adolygiad hwn.<br><br>Dyddiad diwygiedig ar gyfer cwblhau: 22/02/16 | Roedd y rhan fwyaf o’r HINs yn cynnwys manylion y llys yn yr HIN.<br>Does dim cytundebau cau’n wirfoddol na rhybuddion syml ar gael i’w hadolygu. | Sicrhau bod pob HIN yn cynnwys manylion y llys ynadon lleol a chadw prawf o’r gwasanaeth.<br><br>Sicrhau bod cytundebau cau’n wirfoddol yn cael eu gwneud yn ysgrifenedig, eu llofnodi a’u hail-lofnodi, a bod cydymffurfiaeth â nhw yn cael ei monitro’n briodol.<br><br>Sicrhau bod ffeiliau rhybuddion syml wedi’u llunio’n llawn a’u hawdurdodi’n briodol. |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 16.11(i) Cynnal cofnodion cywir a chyfredol mewn ffurf y gellir ei hadalw'n rhwydd ar yr holl sefydliadau bwyd perthnasol a bwyd wedi'i fewnforio yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Dylai'r cofnodion hyn gynnwys adroddiadau ar yr holl ymyriadau/arolygiadau, penderfyniadau ynghylch cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a wnaed gan y swyddog a manylion y camau a gymerwyd. [Y Safon – 16.1] | Coch | Sicrhau bod adroddiadau safonau bwyd yn cynnwys amserlenni ar gyfer cydymffurfio ac yn gwahaniaethu'n glir rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion.<br><br>Dyddiad diwygiedig ar gyfer cwblhau: 22/02/16 | Mae'r wybodaeth hon ar goll o'r adroddiadau. | Sicrhau bod adroddiadau safonau bwyd yn cynnwys amserlenni ar gyfer cydymffurfio ac yn gwahaniaethu'n glir rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion. |
| 17.3(i) Sicrhau bod cofnod yn cael ei wneud o'r holl gwynion a dderbynnir a'r holl gamau a gymerir mewn ymateb i'r cwynion hynny. [Y Safon – 17.3] | Glas | Nid aseswyd cwynion am y gwasanaeth yn ystod yr adolygiad hwn.<br><br>Dyddiad diwygiedig ar gyfer cwblhau: 22/02/16 | Dim cwynion am y gwasanaeth wedi dod i law. | Cwblhawyd |
| 19.8(i) Rhoi'r weithdrefn fonitro fewnol ar waith yn llawn ar draws yr holl weithgareddau hylendid bwyd a safonau bwyd. [Y Safon – 19.1] | Gwyrdd | Ar hyn o bryd, mae gwaith monitro mewnol ansoddol yn cael ei gyfyngu i ymyriadau a raglennir ac, mewn rhai | Gwaith monitro mewnol ansoddol wedi'i ymestyn i gwmpasu ceisiadau am wasanaeth, gan gynnwys samplu ac | Ehangu gweithgarwch ymhellach i gynnwys ymchwiliadau i glefydau heintus, ymatebion i ddigwyddiadau a |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | achosion, mae wedi methu â nodi diffygion wrth ddarparu gwasanaeth. Dylid ymestyn gwaith monitro mewnol ansoddol i gynnwys cwynion, clefydau heintus, gweithgarwch samplu, rhybuddion bwyd ac awdurdodiadau.<br><br>Dyddiad diwygiedig ar gyfer cwblhau: 22/02/16 | awdurdodiadau pan gânt eu cynnal. | swmp-wiriadau cronfeydd data. |
| 19.8(ii) Sicrhau bod cofnodion o'r holl weithgareddau monitro mewnol yn cael eu gwneud a'u cadw am o leiaf ddwy flynedd. [Y Safon – 19.3] | Glas | Dylid cadw cofnodion ar gyfer yr holl waith monitro.<br><br>Dyddiad diwygiedig ar gyfer cwblhau: 22/02/16 | Cofnodion yn cael eu cadw. | Cwblhawyd |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 21.4(i) Cynnal cofnodion o'i waith hyrwyddo diogelwch bwyd a safonau bwyd. [Y Safon – 21.2] | Glas | Cwblhawyd | | |

Cynllun Gweithredu Archwiliad CSHB 2017/2018 ar gyfer Cyngor Sir Fynwy

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| Camau gweithredu mewn perthynas â chynllunio gwasanaeth yn sgil archwiliad o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. | Glas | Cynnwys manylion ymyriadau mewn busnesau newydd ac ymyriadau a gariwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol yn y rhaglen. | Diweddarwyd y cynllun gwasanaeth i gynnwys yr wybodaeth hon. | Cwblhawyd. |
| Camau archwilio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn ymwneud â rhaglen ymyriadau hylendid bwyd. | Gwyrdd | Sicrhau bod yr holl ymyriadau dyledus yn cael eu cwblhau ar yr amlder cywir. | Cwblhawyd pob ymyriad dyledus ac eithrio 42 ohonynt, a phob ymyriad o safleoedd heb sgôr ac eithrio 38 ohonynt. | Sicrhau bod yr holl ymyriadau dyledus yn cael eu cwblhau ar yr amlder cywir. |
| Camau archwilio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn ymwneud â sgoriau ac ail-sgorio. | Glas | Sicrhau bod ymyriadau sgorio ac ail-sgorio yn cael eu cynnal yn gywir. | Mae ymyriadau sgorio ac ail-sgorio yn cael eu cynnal yn briodol. | Cwblhawyd. |
| **Argymhelliad** | **Statws** | **Heb ei gyflawni** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| Camau archwilio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd mewn perthynas â gweithdrefnau. | Gwyrdd | Sicrhau bod gweithdrefnau, gan gynnwys aide-mémoires a thempledi llythyrau, yn | Mae gweithdrefnau, aide-mémoires a thempledi llythyrau adroddiadau sy'n ymwneud â'r CSHB wedi'u | Sicrhau bod y gweithdrefnau'n cynnwys: |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | cydymffurfio â gofynion y Cynllun. | diwygio ar y cyfan i gynnwys y manylion a nodir yn adroddiad archwilio'r CSHB. | • Gwirio bod sgoriau'n cael eu harddangos yn ystod ymweliadau ymatebol<br><br>Diwygio'r templed llythyr i sicrhau bod gwybodaeth lawn am wneud cais am ail-sgorio, gan gynnwys y gost, yn cael ei darparu i weithredwr y busnes bwyd. |
| Camau archwilio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn ymwneud â chamau gorfodi. | Gwyrdd | Darparu gweithdrefn erlyn ac uwchgyfeirio mewn ymateb i dorri deddfwriaeth y CSHB. | Gweithdrefn erlyn wedi'i darparu. | Sicrhau'n gyson nad yw Hysbysiadau Cosb Benodedig (FPNs) yn cael eu cynnig yn rheolaidd i safleoedd. |
| Camau gweithredu mewn perthynas â monitro mewnol yn sgil archwiliad o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. | Gwyrdd | Diwygio'r weithdrefn i ddogfennu faint o weithgarwch monitro sy'n cael ei gynnal ac amlder y gweithgarwch hwn.<br>Monitro materion ynghylch diogelu gwybodaeth. | Diogelu gwybodaeth sy'n cael ei chyhoeddi yn ogystal ag amlder y gweithgarwch monitro. | Diwygio'r weithdrefn i ddogfennu faint o weithgarwch monitro sy'n cael ei gynnal. |

**<u>Crynodeb</u>**

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm yr argymhellion** | **34** |
| **Cwblhawyd** | **24** |
| **Cynnydd da** | **6** |
| **Cynnydd cyfyngedig** | **3** |
| **Dim cynnydd** | **1** |
| **Cyfanswm sy'n weddill** | **10** |